2022

# Maniffesto Plaid Cymru Rhondda Cynon Taf

Plaid Cymru
Party of Wales

Gweithredu dros Gymru
Making a Difference




Plaid
Cymru






Plaid Cymru | Party of Wales
Plaid Cymru
Plaid Cymru | Party of Wales


Plaid
PLAID CYMRU
Plaid Cymru
Plaid
PLAID CYMRU
Plaid Cymru





# Rhagair

Mae'r etholiad hwn yn digwydd yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf heriol yn ein bywydau. Gobeithiwn ein bod o'r diwedd yn dod allan o'r pandemig sydd wedi achosi cymaint o loes a niwed i'n cymunedau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ond fel y gwyddom, nid yw Covid, na'i effeithiau wedi llwyr ddiflannu.

Rydyn ni nawr yn wynebu un o'r argyfyngau costau byw mwyaf yn ein bywydau. Mae amcangyfrifon gorau yn dangos y bydd miliynau yn cael eu gorfodi i dlodi llwyr o ganlyniad i gostau cynyddol yn eu cartrefi fel nwy, trydan a bwyd oherwydd chwyddiant, costau tanwydd a phrinder bwyd. Nid pethau moethus rydym yn sôn amdanynt ond costau dydd i ddydd y mae eu hangen ar unrhyw gymdeithas wâr er mwyn oroesi.

Yn y maniffesto hwn mae ymrwymiadau Plaid Cymru yn ymwneud â meysydd gwasanaeth penodol y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb uniongyrchol drostynt. Bwriadwn fynd i'r afael â rhai ffactorau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Mae bywydau plant a phobl ifanc wedi'u troi wyneb i waered gan effeithiau'r pandemig a rydym eisiau eu cefnogi oherwydd hyn. Amharwyd ar eu haddysg a'u lles. Ni all hynny barhau. Rydym am i'n dinasyddion ifanc gael llais a dylanwadu ar y mathau o wasanaethau y maent yn dyheu amdanynt. Am y tro cyntaf bydd pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael pleidleisio. Rydym am i'w pleidlais gyfrif wrth benderfynu beth mae eu cenhedlaeth yn dyheu amdano.

O ystyried maint yr her, mae Plaid Cymru yn ymrwymo i weithio gyda'r holl bartneriaid ar lefel leol a chenedlaethol i gefnogi adferiad o Covid a mynd i'r afael ag argyfwng costau byw.

Bydd Plaid Cymru yn gweithio gyda thrigolion i hyrwyddo'r pethau sy'n gwella lles cyffredinol cymunedau. Mae preswylwyr wedi dweud wrthym fod amgylchedd glân, gwyrdd yn brif flaenoriaeth. Byddwn yn llym ar y rhai sy'n caniatáu i'w cŵn faeddu a'r rhai sy'n tipio'n anghyfreithlon trwy gyflogi mwy o staff o ran gorfodaeth. Byddwn hefyd yn cael gwared ar y taliadau am gasglu gwastraff swmpus gan ddisgwyl y bydd pobl yn rhoi'r gorau i dipio anghyfreithlon.

Mae neges Plaid Cymru i bleidleiswyr yn syml. Rydym yn ddibynadwy ac mae gennym enw da o wrando a gweithredu ar flaenoriaethau pobl. Os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch â ni drwy:

**Plaid Cymru RhCT, 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ**

**PlaidCymruRCT@gmail.com**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am ddarparu nifer o wasanaethau sydd o bwys i bob un ohonom, megis ysgolion, gofal cymdeithasol, casglu biniau a chyfleusterau hamdden gan gynnwys parciau.

Mae cyfanswm o 75 o gynghorwyr yn eich cynrychioli chi – trigolion RhCT – a nhw sy'n gyfrifol am osod y gyllideb a phenderfynu sut y dylid gwario'r arian sydd ar gael i'r cyngor.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae eich cynghorwyr Plaid Cymru wedi gweithio'n galed gyda'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli, yn ogystal ag ymladd dros y gwasanaethau yr ydym eu hangen ac yn eu haeddu.

# Mae ein llwyddiannau yn cynnwys:

- cydweithio gydag ymgyrchwyr lleol ar ymgyrch lwyddiannus i atal cau'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg
- sicrhau darparu cynhyrchion mislif am ddim yn ysgolion y sir. Yna cafodd ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru fel polisi ar gyfer Cymru gyfan
- cefnogi cymunedau a gafodd eu difrodi gan lifogydd yn 2020, ac ymladd am ymchwiliad annibynnol
- brwydro yn erbyn cau cartrefi gofal preswyl
- brwydro yn erbyn y cynlluniau i ad-drefnu ysgolion, cau rhai dosbarthiadau 6ed dosbarth a chau ysgol Gymraeg ym Mhontypridd
- sicrhau cefnogaeth y cyngor i ddarparu prydau ysgol am ddim.
- Rydyn ni wedi gweithio gyda grwpiau a phrosiectau cymunedol di-ri, ac wedi helpu pobl gyda llawer o wahanol faterion fel tai, problemau gyda sbwriel a darparu cefnogaeth wrth ynysu yn ystod y pandemig.
- Rydyn ni bob amser yn rhoi ein cymunedau yn gyntaf ac yn rhoi 5% o'r cyflog rydyn ni'n ei dderbyn fel cynghorwyr yn ôl i'r gymuned.
- Mae bod yn gynghorydd yn anrhydedd ac ni fyddwn byth yn cymryd eich cefnogaeth yn ganiataol.
- Byddai cyngor o dan reolaeth Plaid Cymru yn gwrando arnoch chi ac yn sicrhau bod anghenion ein cymunedau yn dod yn gyntaf.
- Gofynnwn i drigolion Rhondda Cynon Taf roi eu ffydd ynom ni, i ni allu parhau i weithio gyda, a thros ein cymunedau.

# Egwyddorion Nolan

Dylai pawb sy'n dal swydd gyhoeddus gydymffurfio â 7 egwyddor graidd a elwir yn Egwyddorion Nolan. Rydym yn cymryd y rhain o ddifrif a byddwn yn ceisio ymddwyn gydag anhunanoldeb heb hunanoldeb ac uniondeb. Ein nod yw bod yn wrthrychol ac yn atebol i chi'r pleidleiswyr rydym yn credu mewn bod yn agored ac yn onest a byddwn yn dangos arweiniad yn ein swyddogaethau.

Mae gwneud ein cymuned yn deg i bawb yn greiddiol i'n credoau ac rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb i bawb.

•Mae gan Gyngor RhCT fwlch cyflog rhwng dynion a menywod o hyd.
•Mae pobl anabl dan anfantais bellach ar hyn o bryd oherwydd diffyg mynediad i gyfleusterau yn y gymuned.

Mae'n bryd newid hyn!

# Blaenoriaethau

# Ymgysylltu, Bod yn Agored a Thryloywder

Mae pobl o bob oed ar draws RhCT yn aml yn cwyno wrthym nad yw'r cyngor yn gwrando ar bobl leol. Anaml y bydd ymgynghoriadau'n newid unrhyw benderfyniadau, waeth pa mor gryf yw'r teimladau yn lleol.

Credwn fod pob llais yn bwysig, ac y dylai pawb gael y cyfle i helpu i lunio dyfodol ein cymunedau.

Byddai RhCT sy'n cael ei rhedeg gan Blaid Cymru yn diwygio'r prosesau ymgynghori fel bod mwy o bobl yn cymryd rhan, a bod pwysau'r safbwyntiau hynny'n cael eu deall a'u hystyried.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

•sefydlu Pwyllgor Deisebau fel y gall cymunedau fynnu bod pwnc yn cael ei godi o fewn y cyngor

cCnyddu'r defnydd o baneli dinasyddion i drafod datblygiadau a newidiadau mawr fel y gellir cael adborth dilys

Lleihau Pwyllgor Gweithredol y cyngor o'r naw aelod Cabinet presennol

Caniatáu mwy o gyfranogiad gan aelodau'r cyhoedd mewn cyfarfodydd craffu drwy gynyddu'r defnydd o dystion arbenigol a phobl berthnasol sy'n cael eu heffeithio gan  y penderfyniadau dan sylw.

# Newid Hinsawdd a Llifogydd

Ym mis Chwefror 2020, profodd trigolion a busnesau ar draws y fwrdeistref sirol lifogydd dinistriol. Roedd y storm yn eithafol a'r glawiad yn ddigynsail. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir y bu blynyddoedd o danfuddsoddi yn y seilwaith draenio a rheoli tir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor RhCT a Dŵr Cymru. Ar yr union adeg pan ddigwyddodd y llifogydd, roedd gwefan yr awdurdod lleol yn cynnwys cynllun brys nad oedd wedi'i adolygu ers 2011. Nid oeddent wedi'u paratoi ac roedd y cynlluniau a oedd ar waith yn annigonol.

Yn anffodus dydyn ni dal ddim yn barod os byddwn yn wynebu sefyllfa debyg eto. Ym mis Mawrth 2022 roeddem ni dal yn aros i Gyngor RhCT gyhoeddi naw o adroddiadau statudol Adran 19 ar y llifogydd. Mae preswylwyr wedi dweud wrthym nad oes ganddynt hyder yn yr adroddiadau hyn gan nad ydynt yn cael eu harchwilio'n annibynnol. Mae llawer o drigolion yn parhau i fod yn ansicr ynghylch beth yn union ddigwyddodd ac yn bwysicach fyth pa waith adfer sydd angen ei wneud i wella'r sefyllfa. Nid yw hyn yn dderbyniol.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

•Cydweithredu â'r adolygiad cenedlaethol o adroddiadau Adran 19. Ystyried yr angen am ymchwiliad lleol annibynnol i'r llifogydd – rhywbeth rydym wedi ymgyrchu'n gyson drosto ar lefel genedlaethol. Bydd hyn yn llywio sut y byddwn yn gweithio i amddiffyn cartrefi a busnesau rhag llifogydd yn y dyfodol a deall anghenion parhaus cymunedau dan lifogydd yn well

Gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl, gan ddarparu cymorth ymarferol yn ogystal ag emosiynol, a chefnogi rhwydwaith o Grwpiau Gweithredu ar Lifogydd

Ymrwymo, os bydd llifogydd pellach yn digwydd, y bydd trigolion lleol yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio'r adroddiadau o'r cychwyn cyntaf, nid fel ôl-ystyriaeth. Byddwn yn anelu at gyhoeddi'r adroddiadau o fewn 6 mis ar y mwyaf

Cydweithio â chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd a'u cynnwys yng Nghynllun Argyfwng RhCT, gan ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth leol i wella ymatebion mewn argyfwng.

# Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Bioamrywiaeth

Rydym yn cefnogi’r ymrwymiad a wnaed gan Gyngor RhCT i ddod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030.
Rydym o ddifrif am ddyfodol ein planed a byddwn yn gosod y mater hwn ar flaen ein gwaith.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

lBuddsoddi mewn mannau gwyrdd, yn enwedig yng nghanol ein trefi a'n cymunedau a cynyddu ein monitro o lefelau llygredd aer a gweithredu yn unol â hynny i leihau lefelau llygredd lle maent uchaf

Cyflymu'r ddarpariaeth o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn unol â'r galw a sicrhau gwasgariad daearyddol teg ledled RhCT. Byddwn yn gwneud hyn tra'n ystyried technolegau sy'n dod i'r amlwg mewn batris a systemau gwefru, gan sicrhau ein bod yn barod ar gyfer datblygiadau technolegol yn y dyfodol

Trwy Bwyllgor Pensiwn RhCT, byddwn yn sicrhau bod y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol sydd wedi eu cyfuno yng Nghymru, sef Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn manteisio ar bob cyfle i leihau effaith eu portffolios ar newid hinsawdd a bod unrhyw gyfleoedd buddsoddi yn cael eu cymryd yn unol ag egwyddorion llywodraethu amgylcheddol a chymdeithasol

Chwilio am gyfleoedd buddsoddi yn yr economi werdd, a chreu swyddi i gefnogi'r trawsnewid hwn. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau amgylcheddol yn y sectorau gwirfoddol a statudol sy'n hyrwyddo lleihau ryddhau carbon.

# Tomenni Glo

Rydym wedi croesawu sefydlu tîm rheoli diogelwch tomenni o fewn gwasanaethau rheng flaen RhCT. Credwn fod gan drigolion lleol yr hawl i wybodaeth am statws a diogelwch pob tomen lo yn RhCT, rhywbeth y mae cynghorwyr Llafur RhCT wedi gwrthod ei rannu.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

- Cyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â diogelwch tomenni glo sy'n difetha ein cymunedau
- Parhau i ymgyrchu dros y buddsoddiad brys sydd ei angen i wneud yn siŵr nad oes unrhyw gymuned yn cael ei gadael mewn perygl
- Sicrhau y dylai gwaith yr holl bartneriaid dan sylw fod yn agored i graffu cyhoeddus.

# Gwasanaethau Gwastraff

Un o’r materion y mae trigolion yn cysylltu â'r cyngor yn ei gylch amlaf yw rheoli gwastraff. Mae ugain mlynedd ers i RhCT dan arweiniad Plaid Cymru gau safle tirlenwi peryglus Nantygwyddon a chyflwyno’r cynllun ailgylchu gwastraff o ymyl y ffordd. . Byddwn yn parhau i wella'r system hynod boblogaidd hon. Mae trefnu hyn yn iawn yn hanfodol er mwyn osgoi tipio anghyfreithlon sy’n llygru ein tiroedd gwyrdd ac yn niweidio’r amgylchedd. Mae’r cynnydd mewn perchnogaeth cŵn hefyd wedi arwain at heriau gyda baw cŵn a gwastraff cŵn.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

- Adolygu'r system sydd newydd ei chyflwyno ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd. Mae angen system sy’n gweithio i bobl a ddim yn arwain at ddympio gwastraff
- Dileu'r taliadau ar gyfer delio â eitemau mawr
- Ariannu swyddogion gorfodi ychwanegol a dulliau gwyliadwriaeth i leihau llygredd baw cŵn
- Adolygu penderfyniad Cyngor RhCT i orffen darparu bagiau gwastraff cŵn am ddim

# Trafnidiaeth

Mae cynghorwyr Plaid Cymru wedi bod yn weithgar yn galw am fuddsoddiad mewn cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy i gefnogi targedau newid hinsawdd. Mae cynghorwyr Plaid Cymru wedi gofyn yn gyson am lwybrau beicio diogel ar draws y fwrdeistref e.e. yn y Rhondda Fawr ac ar draws cymoedd Cynon a Thaf. Maent hefyd am weld ymgynghoriad ar y posibilrwydd o ymestyn llinell drenau Treherbert i Dynewydd ac ymestyn llinell Aberdâr a linell i'r Rhondda Fach.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

Buddsoddi mewn gwella trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys hygyrchedd bysiau, llwybrau beicio a llwybrau cerdded hygyrch

Cyhoeddi canllaw i breswylwyr (sy'n parcio oddi ar y stryd neu ar y stryd) ar sut i newid i gerbydau trydan a sut i osod pwyntiau gwefru addas yn agos at eu cartrefi, yn unol ag arfer gorau a thechnolegau newydd

Ystyried trafnidiaeth ysgol ag effeithiau amgylcheddol fel rhan o feini prawf gwneud penderfyniadau ym mhob rhaglen newydd.

# Gwireddu Hawliau Plant yn RhCT

CMae plant a phobl ifanc wedi dioddef llawer o ganlyniad i'r pandemig Covid, ac wedi eu hamddifadu o addysg, gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a phrofiadau allweddol sy'n cofnodi eu datblygiad. Credwn y gallwn wneud gwelliannau i fywydau plant a phobl ifanc. Mae cynghorwyr Plaid Cymru wedi galw ar y cyngor i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol fel sail i'w holl waith. Bydd angen ffyrdd newydd o weithio i unioni'r niwed a achoswyd i les meddyliol plant a phobl ifanc yn ogystal â'r effaith addysgol y maent wedi'i ddioddef.

# Addysg

Byddwn yn annog ysgolion a sefydliadau i weithio'n greadigol i adnabod cyfleoedd ac atebion newydd, gan fuddsoddi yn yr adnoddau i wneud i hyn ddigwydd. Yn anffodus ar hyn o bryd mae rhai plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY / ALN) neu rai sy'n dymuno cael eu haddysgu yn Gymraeg o dan anfantais am fod rhaid iddynt deithio'n bell i'w lleoliad addysgol, megis y rhai yn ardal Ynysybwl.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

RAdolygu'r cynlluniau presennol ar gyfer darpariaeth addysgol ar draws yr awdurdod lleol gan ganolbwyntio ar gyfleusterau ADY, darpariaeth chweched dosbarth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn cynllunio gwasanaethau addysgol sy'n addas, hygyrch a llwyddiannus i holl blant a phobl ifanc y fwrdeistref sirol

Cynnal adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd addysgol rhaglen ysgolion mawr y cyngor (3-16 a 3-18) a phrofiadau addysg pob aelod o gymunedau'r ysgolion a'r gymuned gyfagos

Adolygu sut mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol newydd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) i ddeall beth arall y dylid ei wneud i sicrhau bod plant ag ADY yn cael mynediad at eu hawl i addysg

Cynyddu'r buddsoddiad a wneir mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc er mwyn hwyluso mynediad i wasanaethau a datblygu ffyrdd newydd o gyrraedd y rhai mewn angen

Gweithio tuag at ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn cynradd fel y cytunwyd yn y Cytundeb Cydweithredu Cenedlaethol
•gweithio gyda holl ysgolion y fwrdeistref i flaenoriaethu taclo bwlian, casineb a gwahaniaethu, a deall hawliau dynol a hawliau plant.

# Gwasanaethau Ieuenctid

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:



Ymgynghori gyda phobl ifanc a gweithio gyda nhw i lansio rhaglen o fannau diogel i bobl ifanc gymdeithasu yng nghanol trefi



Gwella gwasanaethau iechyd meddwl allgymorth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ieuenctid ar draws y fwrdeistref sirol.

# Tai

Mae gan bawb hawl i gartref diogel a chynnes. Gall ansawdd tai gael effaith enfawr ar les. Mae tai annigonol yn cynyddu'r risg o salwch ac anabledd difrifol; gall hefyd arwain at iechyd meddwl gwael, cyrhaeddiad addysgol is, diweithdra a thlodi. Yr egwyddorion a fydd yn llywio dull newydd Plaid Cymru yw:

1.Hygyrchedd ac addasrwydd i bawb waeth beth fo'u hoedran neu allu neu nodwedd warchodedig

2.Fforddiadwyedd a’r dewis i deuluoedd estynedig fyw mewn cymunedau o’u dewis gyda’i gilydd

3.Ymgynghori a chydweithio gyda dinasyddion a darparwyr tai

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

•Adolygu'r tueddiadau presennol o ran cyflenwad a galw am dai cymdeithasol a gweithio gyda darparwyr tai i roi rhaglen ar waith i leihau'r amseroedd aros am dai cymdeithasol. Byddai'r rhaglen yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol o ran mynediad i fathau penodol o dai megis byngalos, byw â chymorth, eiddo wedi'i addasu

Gweithio gyda’r cwmni adeiladu cenedlaethol newydd ‘Unnos’ pan gaiff ei sefydlu i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella’r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy

Cynnal ymchwil yn RhCT i ddeall yn llawn y rhan y gallai system o renti teg (rheoli rhenti) ei chwarae o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol, a dilyn dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy

Sicrhau bod gan bob person ifanc sydd wedi bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod gartref diogel gyda rhaglen gefnogaeth pan fyddant yn gadael gofal maeth neu gartref preswyl.

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Drwy’r cytundeb cydweithredu rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru, rydym yn nes at gyflawni polisi Plaid Cymru i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

gweithio ar weithrediad lleol o argymhellion y grŵp arbenigol ar sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo’i angen, gan barhau fel gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys:

- cydleoli gwasanaethau aml-asiantaethol i wella cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chydweithio

- offrydiau ariannu integredig i chwalu heriau darpariaeth gofal y tu allan i gyfleusterau iechyd

-gwell tâl ac amodau gwaith ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i leihau'r argyfyngau recriwtio a chadw.

# Gofal Strydoedd, Priffyrdd a Chanol Trefi

LMae byw mewn amgylchedd glân, dymunol a diogel yn agwedd hollbwysig ar gymuned iach. Rydyn ni'n gwybod o'n gwaith gyda phreswylwyr yn RhCT eu bod nhw'n poeni'n fawr am yr amgylchedd rydyn ni'n byw ynddo.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

- IBuddsoddi mewn mwy o doiledau cyhoeddus yn ôl yr angen ym mhob tref yn y fwrdeistref
- Gwella palmentydd ac ariannu mwy o addasiadau palmentydd isel i wella hygyrchedd ar draws y gymuned
- Gweithio ochr yn ochr â Heddlu De Cymru a phartneriaid trydydd sector i ddeall a mynd i'r afael â'r rhesymau y tu ôl i ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn ei leihau
- Dod â nifer cynyddol o strydoedd preifat a lonydd cefn i fyny i safonau mabwysiadwy
- Cynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal stryd i alluogi mwy o adnoddau ar gyfer glanhau a chlirio ardaloedd hagr yn yr ardal.

# Busnes a Thwristiaeth

Heb os, cafodd Covid effaith ar ein prif strydoedd. Er bod rhai wedi elwa ar fwy o bobl yn siopa'n lleol, mae eraill yn parhau i ddioddef ac mae angen strategaeth arnom i gefnogi adfywiad ein holl drefi, nid dim ond y dethol rai.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi busnesau lleol a hefyd i dyfu potensial twristiaeth ar draws y sir. Dylid dathlu ein treftadaeth ddiwydiannol unigryw, a dylem wneud y mwyaf o’n hamgylchedd hardd i ddenu ymwelwyr i’r ardal yn ogystal â chreu cyfleoedd gwaith ar yr un pryd.

## Byddai Cyngor Plaid Cymru yn:

ICynyddu faint o gaffael lleol sydd yn cael ei wneud yn y contractau a ddyfernir gan y cyngor

Annog Llywodraeth Cymru i ehangu’r cynllun rhyddhad ardrethi busnes, gan sicrhau rhyddhad ardrethi i fwy o fusnesau bach a chanolig eu maint

Archwilio potensial datblygu ein treftadaeth ddiwydiannol gan gynnwys twneli, e.e. twneli Rhondda ac Abernant, i greu llwybrau treftadaeth unigryw a allai ddod yn gyrchfannau twristiaeth

Cyflwyno cynlluniau adfywio canol trefi i'r trefi hynny nad ydynt eto wedi elwa o gynlluniau blaenorol

Gwella cymorth adfywio i fusnesau mewn cymunedau llai a phentrefi i annog siopa lleol a lleihau ein hôl troed carbon.

Rydym bob amser â diddordeb ac yn awyddus i wybod barn trigolion. Mae eich lleisiau yn ganolog i'n gwerthoedd craidd a'n dyheadau ar gyfer y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau cysylltwch â Plaid Cymru RhCT:

**Plaid Cymru RhCT, 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ**
**PlaidCymruRCT@gmail.com**




Cerys
Llwynypia
Dear Resident,
I am pleased to announce that I have been selected to be
Local County Council Elections to be held on May 5th


Plaid Cymru
Party of Wales
Plaid Cymru
Party of Wales









